<table>
<tr><th colspan="2">CYNGOR SIR YNYS MÔN</th></tr>
<tr><td>Adroddiad i:</td><td>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td>23.04.2019</td></tr>
<tr><td>Pwnc:</td><td>Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol</td></tr>
<tr><td>Pennaeth Gwasanaeth:</td><td>Dylan J Williams<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:</td><td>Stephen Nicol<br>Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Natur a Rheswm dro Adrodd:<br>CAMAU GWEITHREDU A GYNIGIWYD yn ystod cyfarfod 12.02.2019: Gofyn i’r Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gadarnhau’r canlynol -<br><br>• A oes unrhyw reswm penodol dros y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol ac a yw’r cynnydd yn arwydd bod tuedd yn datblygu.<br>• Beth yw’r gwahaniaeth rhwng y ddau gategori “Ymosodiad Corfforol gan Berson” yn y Tabl Math o Ddigwyddiad ar dudalen 6 yr adroddiad.</td></tr>
</table>


## 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 12.02.2019. Er bod cyfanswm y digwyddiadau wedi gostwng o gymharu â’r flwyddyn flaenorol, nododd y Pwyllgor fod nifer yr ymosodiadau corfforol (digwyddiadau yn ymwneud â chleientiaid a disgyblion) bron â dyblu yn ystod yr un cyfnod, o 56 yn 2016/17 i 103 yn 2017/18. Nododd y Pwyllgor hefyd fod digwyddiadau yn cael eu cofnodi o dan gategori ar wahân ar gyfer ymosodiadau corfforol gan berson er na wahaniaethir yn ddigonol rhwng y ddau gategori. Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad am y cynnydd mewn ymosodiadau corfforol a sut y gellid gwyrdroi’r tueddiad hwn.

## 2. Cefndir

**A oes unrhyw resymau penodol am y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol ac a yw’r cynnydd yn arwydd bod tuedd yn datblygu.**


Wrth adolygu’r digwyddiadau, canfuwyd fod 11 o safleoedd ychwanegol ar draws y Gwasanaethau wedi adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18 o gymharu â 2016/17. Gallai hynny fod o ganlyniad i well ymwybyddiaeth ar draws yr holl Wasanaethau am yr angen i adrodd am y digwyddiadau hyn. Dim ond chwe safle oedd wedi adrodd am ddigwyddiadau yn 2016/17. Ni wnaeth dau safle oedd wedi adrodd am ddigwyddiadau yn 2016/17 gofnodi unrhyw ddigwyddiadau yn 2017/18.




Ni wnaeth safle 2 a 5 adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18

| Lleoliad | Mân | Difrifol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Safle 1 | 35 | 0 | 35 |
| Safle 2 | 1 | 0 | 1 |
| Safle 3 | 4 | 0 | 4 |
| Safle 4 | 4 | 0 | 4 |
| Safle 5 | 2 | 0 | 2 |
| Safle 6 | 9 | 1 | 10 |

Mae'r siart isod yn dangos y digwyddiadau a gafodd eu hadrodd fesul safle yn 2017/18. Defnyddiwyd label rhif ar gyfer pob safle wnaeth adrodd am ddigwyddiad yn 2016/17 a 2017/18. Defnyddiwyd label llythyren ar gyfer safleoedd a wnaeth adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18 yn unig. Mae hyn er mwyn adnabod safleoedd a wnaeth adrodd am ddigwyddiadau ddwy flynedd ar ôl ei gilydd.





| Lleoliad | Mân | Difrifol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Safle 1 | 36 | 2 | 38 |
| Safle 3 | 3 | 0 | 3 |
| Safle 4 | 8 | 2 | 10 |
| Safle 6 | 20 | 3 | 23 |
| | | | |
| Safle A | 1 | 0 | 1 |
| Safle B | 12 | 0 | 12 |
| Safle C | 1 | 0 | 1 |
| Safle D | 3 | 0 | 3 |
| Safle E | 1 | 0 | 1 |
| Safle F | 1 | 0 | 1 |
| Safle G | 1 | 0 | 1 |
| Safle H | 2 | 0 | 2 |
| Safle I | 1 | 0 | 1 |
| Safle J | 1 | 0 | 1 |
| Safle K | 3 | 0 | 3 |
| Safle L | 1 | 0 | 1 |
| Safle M | 1 | 0 | 1 |

Adroddodd safle 1 am 3 digwyddiad ychwanegol yn 2017/18 o gymharu â 2016/17. Cynnydd bychan iawn yw hwn ac ni ystyrir ei fod yn arwyddocaol.

Adroddodd Safle 6 am 23 digwyddiad yn 2017/18 o gymharu â 10 digwyddiad yn 2016/17. Mae hyn yn gynnydd o 13 digwyddiad. Dangosodd adolygiad o'r digwyddiadau hyn fod y rhan fwyaf yn ymwneud â dau gleient oedd â phroblemau penodol.

Cafodd cyfanswm o 29 o ddigwyddiadau eu cofnodi ar gyfer y safleoedd ychwanegol a wnaeth adrodd am ddigwyddiadau yn 2017/18. Gallai hynny fod o ganlyniad i well ymwybyddiaeth am yr angen i wneud hynny.




Mae'r graff uchod yn dangos ffigyrau ar gyfer Ymosodiadau Corfforol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Ymddengys fod y niferoedd wedi gostwng rhwng 2013 a 2017. Ymddengys fod y duedd wedi gwrthdroi rhwng 2016/17 a 2017/18.

Mae digwyddiadau Ymosodiad Corfforol Ymddygiad Heriol wedi bod yn uwch nag Ymosodiad Corfforol erioed. Fel y nodwyd, mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys digwyddiadau lle nad oedd bwriad i achosi niwed o angenrheidrwydd. Felly, mae'n bosib fod y niferoedd a gofnodwyd yn uwch o ganlyniad i well ymwybyddiaeth.

Roedd niferoedd Ymosodiadau Corfforol ar eu hisaf yn 2015/16, sef 20, ond maent wedi cynyddu ers hynny. Dylid monitro'r ffigyrau hyn yn fwy gofalus gan y gallai fod bwriad i achosi niwed.

**Y gwahaniaeth rhwng y ddau gategori "Ymosodiad Corfforol gan Berson" yn y Tabl Math o Ddigwyddiad ar dudalen 6 yr adroddiad.**

Mae'r system gofnodi damweiniau yn cynnwys dau gategori ar gyfer Ymosodiadau Corfforol. Y categorïau yw Ymosodiad Corfforol ac Ymosodiad Corfforol Ymddygiad Heriol. Mae categorïau Ymosodiad Corfforol yn cynnwys digwyddiadau lle mae person wedi taro person arall.

Roedd y niferoedd o 103 (2017/18) a 56 (2016/17) yn ymwneud â digwyddiadau 'Ymosodiad Corfforol Ymddygiad Heriol'. Digwyddiadau yw'r rhain lle byddai galluedd meddyliol yn cael ei gwestiynu ac efallai nad oedd bwriad i ymosod yn gorfforol ar berson arall.

Mae'r categori Ymosodiad Corfforol yn cynnwys digwyddiadau lle na chafodd galluedd meddyliol ei gwestiynau. Y ffigyrau ar gyfer y categori hwnnw oedd 45 (2017/18) a 37 (2016/17). Yn 2017/18 cofnodwyd 9 o ddigwyddiadau yn erbyn staff, y cyfan yn fân ddigwyddiadau.

## 3. Argymhelliad

Monitro ffigyrau 2018/19 a'u cymharu â'r uchod. Os yw'r niferoedd yn parhau i godi byddai'n rhaid ymchwilio ymhellach gyda'r nod o leihau digwyddiadau yn y dyfodol.